NHS WALES GIG CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Penodi Aelod Annibynnol (4 rôl: Cyllid, TGCh, y Gymuned, ac Awdurdod Lleol)

Dyddiad cau: 31 Mai 2017

Regulated by
The Commissioner for
Public Appointments

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cynnwys **Tudalen**

Gwneud cais **3**

Atodiad A : Rôl yr Aelod Annibynnol **6**

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan **10**

Atodiad C: Y broses ddethol **12**

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb mewn cael eich penodi'n Aelod Annibynnol ar gyfer Cyllid, neu TGCh, neu'r Gymuned neu Awdurdod Lleol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd yn ofynnol i'r Aelod Annibynnol newydd chwarae rôl lawn a gweithgar yn y gwaith o lywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl yr Aelod Annibynnol, manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru drwy glicio yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-194c801cdb07/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon trwy eich cyfrif.

Byddwch yn gallu mynd at y ffurflen gais yn syth ar ôl ichi gofrestru. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno'r ffurflen gais a **dwy** ddogfen ategol. Y ddogfen ategol gyntaf yw'r **Datganiad Personol,** sy'n rhoi atebion i'r cwestiynau isod, gan ddarparu tystiolaeth eich bod yn bodloni'r cymwyseddau. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. **CV** llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen ategol y bydd yn rhaid ichi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran "Rhesymau dros ymgeisio" yn y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir yn y cwestiynau isod. Chi fydd yn penderfynu sut yr ydych am gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, fe ddylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl yn cyflawni canlyniadau penodol. Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir ba faen prawf y mae pob tystiolaeth benodol yr ydych yn ei darparu yn berthnasol iddo. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraff ar wahân ar gyfer pob maen prawf.

Cwestiynau i'w hateb yn eich datganiad personol, gan ddefnyddio dim mwy na 2 dudalen A4.

Rhowch grynodeb o sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf penodol ar gyfer rôl aelod ar gyfer Cyllid, Awdurdod Lleol, TGCh, neu'r Gymuned.

Disgrifiwch eich dealltwriaeth o faterion a blaenoriaethau iechyd yng Nghymru, a sut y byddent yn berthasol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Rhowch enghraifft neu enghreifftiau penodol o sefyllfa pan fu'n rhaid ichi ddadansoddi gwybodaeth gymhleth er mwyn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau cadarn.

Disgrifiwch adeg pan wnaethoch alw person ar lefel uwch i gyfrif gan barhau i gynnal perthynas adeiladol ag ef.

Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Rhowch enghraifft benodol sy'n amlinellu eich dull o gyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ar bob lefel, ynghyd â'r sgiliau a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennych a'r canlyniad.

Disgrifiwch enghraifft neu enghreifftiau penodol lle'r ydych wedi cynnwys gwahanol dimau, partneriaid neu rhanddeiliaid yn y gwaith o wella gwasanaeth neu broses. Amlinellwch eich cyfraniad personol a'r canlyniad.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	31 Mai 2017
Rhestr fer wedi'i thynnu:	w/d 19 Mehefin 2017
Cyfweliadau:	w/d 10 neu 17 Gorffennaf 2017
Dyddiad dechrau:	1 Hydref 2017. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Iechyd yn gofyn am gyfnod trosglwyddo / cysgodi. Felly efallai y bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau **cyn** mis Hydref 2017. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cadarnhad ynghylch hyn pan fydd eu penodiad yn cael ei gadarnhau.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Yn Ysbyty Sant Cadog, Caerllion, mae prif swyddfeydd y Bwrdd Iechyd, a dyma le y cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Hefyd disgwylir i aelodau'r Bwrdd fynychu digwyddiadau a gweithgareddau ledled ardal y Bwrdd Iechyd.
Tâl cydnabyddiaeth:	£15,936 y flwyddyn
Ymrwymiad Amser:	Mae swydd Aelod Annibynnol yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, a bydd yn aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld amrywiaeth eang o unigolion yn ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod; pobl dan 30 oed; pobl o gefndiroedd

du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; pobl anabl; a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Cynllun Gwarantu Cyfweliad i bobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad os yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol hanfodol ar gyfer y swydd.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol
Ffôn: 029 2082 5454
E-bost: sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Aelod Annibynnol, cysylltwch â Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd, Ffôn: 01633 435959. E-bost: richard.bevan@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ewch i wefan y Bwrdd: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/home

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â Desg Gymorth Canolfan Cydwasanaethau Corfforaethol Llywodraeth Cymru ar 029 2082 5454 neu anfonwch e-bost i SharedServiceHelpdesk@wales.gsi.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Rôl yr Aelod Annibynnol

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person
Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Rôl a chyfrifoldebau
Ymysg pethau eraill, bydd Aelodau Annibynnol yn gwneud y canlynol:-

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu, o safbwynt clinigol a chorfforaethol. Byddwch yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau, gan gynnig eich barn a herio a chefnogi'r Bwrdd ar faterion allweddol.
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorffennol, eich gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli gweithredol o ddydd i ddydd.
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw.
- Ymhen amser, dod i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol sy'n cynorthwyo'r sefydliad i weithredu'n effeithiol.
- Gweithio'n agos gyda sefydliadu cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol eraill, gan sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau.
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol, a chyfrannu at benderfyniadau cadarn.
- Cyfrannu at brosesau 'llywodraethu a chyllid' y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith, drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau.

Manyleb y Person
Bydd Aelodau Annibynnol yn dangos y rhinweddau canlynol:-

Gwybodaeth a Phrofiad

- Dealltwriaeth o faterion iechyd a blaenoriaethau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a'r gallu i ddeall rôl a gwaith y Bwrdd.
- Y gallu i ddwyn yr aelodau gweithredol i gyfrif am berfformiad, gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd.
- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth.
- Dealltwriaeth eang o'r gofynion llywodraethu gwybodaeth sy'n hanfodol ar gyfer cymffurfio â deddfwriaeth, ee y Ddeddf Diogelu Data.

Priodoleddau Personol a Sgiliau
Mae gan y Bwrdd Iechyd set o werthoedd ac ymddygiadau craidd a rennir – sef yr hyn y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli. Bydd angen ichi allu dangos y canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i ymgysylltu â chyflogeion a chynrychiolwyr cyflogeion ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd.
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill.

- Y gallu i gynnwys rhanddeiliaid a gweithio gyda nhw i helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau.
- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a'i hadolygu'n feirniadol.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf sy'n Benodol i'r Rôl

Aelod Annibynnol - Cyllid

Bydd angen ichi ddangos:

- Sgiliau a gwybodaeth sy'n berthnasol i systemau ariannol a rheolaeth ariannol mewn sefydliadau mawr.
- Dealltwriaeth gadarn o rôl Archwilio a Llywodraethu.
- Y gallu i werthuso ac adolygu Achosion Busnes yn feirniadol.
- Profiad o wella perfformiad i sicrhau gwerth am arian.
- Y gallu i gymhwyso eich gwybodaeth arbenigol a'ch sgiliau cyllid ar lefel bwrdd strategol.

Aelod Annibynnol – TGCh

Bydd angen ichi ddangos:

- Dealltwriaeth a phrofiad o ddylunio a / neu reoli systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd Rheoli Gwybodaeth wrth rannu gwybodaeth bersonol adnabyddadwy mewn ffordd ddiogel a chyfrinachol;
- Profiad o gymhwyso a defnyddio technoleg gwybodaeth er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddarparu gwasanaethau;
- Y gallu i ddefnyddio eich gwybodaeth arbenigol a'ch sgiliau TGCh ar lefel bwrdd strategol.

Aelod Annibynnol - y Gymuned

Bydd angen ichi ddangos:

- Dealltwriaeth sensitif o faterion a blaenoriaethau sy'n bwysig i'r gymuned leol;
- Dealltwriaeth o'r angen i ganolbwyntio ar ddinasyddion wrth hyrwyddo pwrpas y Bwrdd o ran gwasanaethu'r cyhoedd;
- Profiad a sgiliau a fydd yn helpu'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu ei ddulliau o ymgysylltu â'r gymuned.

Aelod Annibynnol - Awdurdod Lleol

Rhaid ichi fod yn aelod etholedig o awdurdod lleol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd angen ichi ddangos:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion awdurdod lleol yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

- Y gallu i ddefnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion awdurdod lleol ar lefel bwrdd strategol.

Yr Iaith Gymraeg
Aelod Annibynnol Cymunedol
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ond ddim yn hanfodol ar gyfer yr apwyntiad hwn. Er hyn, bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith a dangos yr arweinyddiaeth i gryfhau darpariaeth dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru.

Aelodau Annibynnol Awdurdod Lleol, TGCH a Chyllid
Nid oes angen sgiliau Cymraeg ar gyfer yr apwyntiadau hyn. Er hyn, bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos empathi tuag at yr iaith a dangos yr arweinyddiaeth i gryfhau darpariaeth dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru.

Ymrwymiad amser
Mae swydd Aelod Annibynnol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn seiliedig ar ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad a bydd yn aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Tâl cydnabyddiaeth
Bydd yr Aelod Annibynnol yn cael £15,936 y flwyddyn a delir mewn ôl-daliadau yn fisol neu'n chwarterol, fel sy'n cael ei gytuno gyda'r Bwrdd Iechyd.

Ni fydd Aelod Annibynnol sy'n cael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i ddod i gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd yn cael unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl yr Aelod Annibynnol. Bydd yn cael ei drin yn yr un ffordd â gweithwyr eraill sy'n cael amser i ffwrdd o'u swydd bresennol gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

Treuliau
Bydd hawl gennych i gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth sy'n codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellid talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill sy'n codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Hyd y penodiad
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon sy'n pennu hyd y penodiad a fydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Aelod Annibynnol yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl drwy gydol y cyfnod hwn. Wyth (8) mlynedd yw'r terfyn amser i aelodau gael gwasanaethu ar y Bwrdd.

Atebolrwydd
Penodir yr aelodau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, a byddant yn atebol, drwy'r Cadeirydd, i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle bo hynny'n briodol, gwneir pob addasiad rhesymol er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Ni chaiff unigolyn dderbyn penodiad os bydd:

a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd ddiwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;

b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwyr;

c. wedi cael ei ddiswyddo o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd, ac eithrio pan fo ei swydd wedi'i dileu neu pan fo ei gontract tymor penodol heb ei adnewyddu;

d. yn unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad oedd ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd; am iddo beidio â mynychu cyfarfodydd; neu am iddo beidio â datgelu buddiant ariannol;

e. yn cael ei gyflogi gan gorff gwasanaeth iechyd;

Yn amodol ar yr eithriad a nodwyd yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG dreulio cyfnod heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer un o Benodiadau Cyhoeddus y GIG.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais o dan Gwrthdaro Buddiannau ar y ffurflen gais.

Dylai ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd sy'n ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, rhaid i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn hysbys a hwythau wedi eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd bod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Os bydd unigolyn yn cael ei benodi'n Aelod Annibynnol, rhaid iddo ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau a'i bod yn briodol iddo barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i Aelodau Annibynnol gadw at safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae'r safonau hyn yn seiliedig ar Egwyddorion Llywodraeth Cymru o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ynghyd â “Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan".

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cefndir

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyllideb o ychydig dros £1 biliwn. Fe'i sefydlwyd yn 2009 fel Bwrdd Iechyd Lleol integredig sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflenwi ystod eang o wasanaethau sylfaenol, cymunedol ac eilaidd i bobl Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol hefyd am weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a gwella iechyd a lles pobl ei ardal. Gan gynnwys amcangyfrif o'r cleifion sy'n byw yn Ne Powys ac ardaloedd eraill sy'n derbyn gwasanaethau acíwt gan y Bwrdd, mae bron i 600,000 o gleifion yn cael eu gwasanaethu ganddo. Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn comisiynu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cael eu sicrhau trwy gontractau a threfniadau contract â darparwyr o Gymru, Lloegr ac o'r Trydydd Sector.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol dri ysbyty acíwt sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau cleifion preswyl a chleifion allanol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd, Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach, ac Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Mae yna hefyd ysbytai a chyfleusterau amrywiol eraill sydd wedi'u lleoli ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cyflogi 400 o Ymarferwyr Cyffredinol a Meddygon Teulu Cyflogedig sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o 88 o Bractisau Cyffredinol. Mae 214 o nyrsys practis, 145 o weithwyr cymorth gofal iechyd ac amryw o staff gweinyddol, sy'n cynnwys rheolwyr practisau, derbynyddion, ysgrifenyddion a swyddogion TG, yn cefnogi'r practisau hyn. Mae tua 375 o Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol o 79 o bractisau. Mae yna 129 o Fferyllfeydd Cymunedol a 69 o leoliadau Optometreg ar draws ardal y Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cynnig ystod gynyddol o wasanaethau yn y gymuned, yng nghartrefi cleifion, trwy ysbytai cymunedol, a thrwy ganolfannau iechyd a chlinigau. Mae yna rai ysbytai cymunedol llai eu maint, a chanolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a chanolfannau iechyd sy'n darparu gwasanaethau clinigol pwysig i'n dinasyddion yn nes at eu cartrefi.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol hefyd yn darparu gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu cynhwysfawr mewn ysbytai ac yn y gymuned i bobl Gwent a De Powys.

Rôl y bwrdd

Mae'r tair rôl allweddol y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn dangos arweinyddiaeth effeithiol trwyddynt, o fewn ei sefydliad, fel a ganlyn:-

- Llunio strategaeth;
- Sicrhau atebolrwydd trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am weithredu'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy;
- Helpu i greu diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae rôl aelod o'r Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau;
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir, gan ddwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni'r nodau a'r amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad;
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn;
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad; Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu eich ffurflen gais, eich CV a'r cwestiynau yr ydych wedi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol er mwyn penderfynu a ydych yn bodloni meini prawf y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'ch atebion i'r cwestiynau yn eich datganiad personol i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys cadeirydd newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'w gadarnhau yn Mai 2017, o bosib Phil Robson, Is Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Tesneem Ahmad, Llywodraeth Cymru ac un unigolyn arall fel yr Aelod Panel ar y Annibynnol.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n tynnu'r rhestr fer. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel, erbyn diwedd Mehefin, wedi penderfynu pwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweliad a gynhelir yn Gorffennaf, dyddiad i'w gadarnhau.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf sydd, ym marn y panel, wedi dangos y dystiolaeth orau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person, fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch chi hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi ynghylch y dyddiad. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweliad a drefnir, byddwn yn gwneud ein gorau i ail-drefnu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen benodi, a bydd yn dibynnu hefyd a fydd y panel dewis ar gael ai peidio.

Byddwch yn cael neges e-bost o'r system Penodi i roi gwybod ichi a ydych wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweliadau yn Gorffennaf.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf sy'n berthnasol i'r rôl.

Efallai y bydd y broses benodi a'r cyfweliad yn cynnwys asesiadau pellach o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl. Bydd y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweliad yn cael rhagor o wybodaeth ymlaen llaw.

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn ystyried eu bod yn 'benodadwy' yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae'n bosibl y bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn dewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd cadeirydd y panel neu gynrychiolydd y mae wedi ei enwebu yn bresennol ym mhob cyfarfod a gynhelir. Bydd bwlch o amser rhwng y cyfweliad a

gwneud y penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr sydd wedi cael cyfweliad yn cael gwybod y diweddaraf am hynt eu cais.

Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech y mae'n eu cymryd i wneud cais am un o'r rolau hyn, a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os byddwch yn dymuno gwneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol drwy ffonio 029 2082 5454 neu e-bostio sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk

Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
Y Comisiynydd sy'n rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau'n deg, yn agored, yn dryloyw ac yn seiliedig ar deilyngdod. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Llywodraethu ar gael drwy glicio ar http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gŵynion am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â Desg Gymorth y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol drwy ffonio 029 2082 5454 neu e-bostio sharedservicehelpdesk@wales.gsi.gov.uk.

Os ydych yn parhau'n anfodlon ar ôl cael ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn y cyfeiriad isod:

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk